# CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ddydd Mawrth 20 Hydref 2020 am 10.00am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd; Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, a Mark Young, Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Meirick Davies, Hugh Irving, Alan James, Barry Mellor, Merfyn Parry, Peter Scott, Glenn Swingler, Rhys Thomas, Graham Timms, Huw Williams ac Emrys Wynne

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (JG); Y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyfreithiol, AD a Gwasanaethau Democrataidd (GW), Cyllid ac Eiddo (SG) a Phriffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (TW); Rheolwr Prosiect (PC); Rheolwr Rhaglen – Datblygu Tai (MD); Rheolwr Iechyd a Diogelwch Eiddo (SW); Cydlynydd Craffu (RE); Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ) a Rheolwr Gyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig (JG)

Roedd y Gohebydd Democratiaeth Leol hefyd yn bresennol o bell er mwyn arsylwi'r cyfarfod.

## PWYNT SYLW

Yn sgil y cyfyngiadau presennol ar deithio a'r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol oherwydd pandemig y coronafeirws, cynhaliwyd y cyfarfod o bell trwy gyfrwng fideo gynadledda ac nid oedd ar agor i'r cyhoedd. Cafodd pob aelod gyfle i fynychu fel arsylwyr a chafodd y Gohebydd Democratiaeth Leol wahoddiad i arsylwi hefyd.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGANIADAU O GYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorwyr Bobby Feeley a Huw Hilditch-Roberts gysylltiad personol ag eitem 7 ar y rhaglen – Estyniad i Fframwaith Hamdden y DU y Cyngor, gan eu bod ill dau'n Gyfarwyddwyr Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig.

## 3 MATERION BRYS

Ar gais yr Arweinydd, cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Weithredwr yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru (LlC) y byddai'n cyflwyno cyfnod torri'r cylch ledled Cymru i helpu rheoli'r coronafeirws. Mewn trafodaethau â LlC, ceisiwyd mesurau penodol i warchod economi a dinasyddion Sir Ddinbych, gan gynnwys pecynnau cymorth i fusnesau ynghyd â gwybodaeth a chanllawiau clir, y trafodwyd rhywfaint ohonynt yng nghyhoeddiad LlC. Darparwyd sicrwydd fod swyddogion yn gweithio'n galed i sicrhau y gellid cau gwasanaethau'n ddiogel a sefydlu dulliau i gefnogi busnesau a chleientiaid diamddiffyn, yn ogystal â sicrhau bod cymaint o wybodaeth ag sy'n bosib ar gael drwy sianeli cyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol. Bydd gwybodaeth bellach yn cael ei darparu eto yn y dyddiau nesaf.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod Cabinet a gynhaliwyd ar 22 Medi 2020.

**Cywirdeb –** Tudalen 13, Eitem 9 Adroddiad Cyllid – Gofynnodd y Cynghorydd Mark Young i'w sylw am y £500 a roddwyd i weithwyr gofal gael ei gynnwys yn y cofnodion. Roedd wedi llongyfarch Llywodraeth Cymru ar roi'r taliad fel rhodd i staff gofal ymroddedig, a dywedodd ei bod yn drueni fod Trysorlys y DU wedi codi treth ar y rhodd.

***PENDERFYNWYD****, yn amodol ar y pwynt cywirdeb uchod, derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi 2020 a chadarnhau eu bod yn gofnod cywir.*

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *y byddai aelodau'r Wasg yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol o dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail fod yr eitem yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 ac 16 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

## 5 DULL ARFAETHEDIG O DENDRO AR GYFER CAM 1/ CONTRACT GWAITH GALLUOGI AR GYFER ESTYNIAD I YSTÂD DDIWYDIANNOL COLOMENDY, GAN GYNNWYS GORSAF TROSGLWYDDO GWASTRAFF CSDD

Cyflwynodd y Cynghorydd Brian Jones yr adroddiad cyfrinachol oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gynnal yr ymarfer tendro arfaethedig i ganfod prif gontractwr i gyflawni Cam 1/ Contract Gwaith Galluogi ar gyfer estyniad i Ystâd Ddiwydiannol Colomendy yn Ninbych, gan gynnwys Adeiladu Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff (GTG).

Roedd manylion yr ymarfer tendro arfaethedig wedi'u nodi yn yr adroddiad ynghyd â'r amserlenni amlinellol a gwerth disgwyliedig y contract, gan gynnwys sut y mae'n gysylltiedig â'r GTG arfaethedig (Plot 1) a'r gwaith galluogi i'w gyflawni (Plotiau 2 i 5). Cyfeiriwyd at y cydweithio sy'n mynd rhagddo ar yr estyniad i'r safle a chyflawni'r contract wrth symud ymlaen i ddatblygu. Cydnabuwyd y cyfleoedd ar gyfer busnesau a thwf economaidd sy'n codi o'r estyniad hefyd. Roedd y cyngor yn arwain ar yr ymarfer tendro oherwydd y rhyngddibyniaethau rhwng y plotiau ar

draws y safle cyfan. Darparwyd sicrwydd bod y prosiect wedi rhoi ystyriaeth i agweddau ar newid hinsawdd a bioamrywiaeth, gan gynnwys gwarchod cynefinoedd, lleihau nifer y teithiau cerbyd i gasglu gwastraff a gosod mannau gwefru Cerbydau Trydan, a rhoddwyd ystyriaeth hefyd i dechnolegau hydrogen yn y dyfodol.

Croesawodd y Cynghorydd Mark Young y cydweithio a'r manteision fydd yn dod yn ei sgil, ac roedd hefyd yn awyddus i sicrhau bod cwmnïau lleol yn cael cyfle i wneud cais. Darparwyd sicrwydd yn hynny o beth ac roedd disgwyl y byddai yna ddiddordeb lleol yn y tendr, gyda thuedd amlwg i ymgysylltu â busnesau lleol lle bo hynny'n bosib o fewn rheolau'r weithdrefn gontractau. Byddai'r contract hefyd yn darparu ar gyfer mantais gymunedol a buddsoddiad lleol i gefnogi'r nod honno ymhellach. Mewn ymateb i gwestiynau pellach, cadarnhaodd y swyddogion mai amser swyddogion fyddai'r unig gost gysylltiedig â'r tendr, gan y cyhoeddwyd y tendr drwy GwerthwchiGymru, sy'n adnodd ar y we. O ystyried gwerth posib y gwaith, bydd amserlenni Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU) yn gymwys a bydd dyfarnu'r contract yn amodol ar adroddiad pellach i'r Cabinet.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai'r Cabinet yn –*

*(a) rhoi cymeradwyaeth i gynnal yr ymarfer tendro arfaethedig, ac yn*

*(b) nodi y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet (drwy'r Grŵp Buddsoddi Strategol) i gael cymeradwyaeth ar gyfer Dyfarnu'r Contract wedi hynny, yn dilyn yr ymarfer tendro, a fydd hefyd yn cadarnhau trefniadau rheoli'r contract, costau cyflwyno tendr a manylion y contract.*

**SESIWN AGORED**

Ar ôl cwblhau'r busnes uchod, ailddechreuwyd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

**6 EITEM O'R PWYLLGOR CRAFFU – ADOLYGU PENDERFYNIAD CABINET SY'N BERTHNASOL I GAEL GWARED AR DIR GER YSGOL PENDREF, DINBYCH**

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Williams, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau, adroddiad oedd yn rhoi manylion y casgliadau a gyrhaeddwyd gan y Pwyllgor Craffu yn dilyn ystyried y cais galw i mewn o ran penderfyniad y Cabinet a wnaed ar 22 Medi 2020 i gael gwared ar dir ger Ysgol Pendref, Dinbych, nad oedd y cyngor ei angen mwyach, ar y farchnad agored ar gyfer datblygiad preswyl.

Hysbyswyd y Cabinet am y trafodaethau manwl a gynhaliwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau mewn perthynas â phenderfyniad y Cabinet. Nodwyd casgliadau'r Pwyllgor Craffu yn yr adroddiad, ynghyd â'i argymhellion. Yn gryno, roedd y Pwyllgor wedi argymell bod y Cabinet yn -

- cydnabod casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Craffu;
- ailedrych ar ei benderfyniad gan roi ystyriaeth i'r weledigaeth ar gyfer tai cymdeithasol a thai fforddiadwy yn y dyfodol fel a nodir yn y fframwaith datblygu cenedlaethol newydd drafft, 'Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040';

- gohirio'r penderfyniad o ran y safle penodol hwn am 12 mis, nes i'r fframwaith datblygu cenedlaethol newydd gael ei gytuno;
- ystyried opsiynau i wneud y tir yn fwy deniadol i landlordiaid cymdeithasol a datblygwyr llai drwy ei rannu'n barseli/blotiau llai, a
- peidio creu gorgyflenwad o dai anfforddiadwy mawr yn Ninbych, nad ydynt yn diwallu angen lleol.

Fel Aelod Arweiniol, atgoffodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill y Cabinet fod y tir dan sylw wedi cael ei ddyrannu ar gyfer tai yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn 2013, yn dilyn yr holl brosesau a chamau ymgynghori priodol. Roedd y tir wedi'i gadw yn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ac felly byddai unrhyw dderbyniad cyfalaf o'r gwerthiant yn cael ei glustnodi ar gyfer y CRT ac ni ellid ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw ddiben arall. Ymatebodd i argymhellion y pwyllgor craffu fel a ganlyn -

- mae fframwaith datblygu cenedlaethol newydd LlC yn dal i fod ar ei ffurf ddrafft heb unrhyw arwydd y bydd unrhyw gyllid newydd yn cael ei gynnig i gefnogi'r dyheadau am dai fforddiadwy.
  Er y gallai awdurdodau lleol gael gafael ar grant tai cymdeithasol o Ebrill 2021 ymlaen, swm penodol fyddai'r cyllid hwn wedi'i dorri allan o gyllidebau presennol, y byddai angen i gynghorau ymgeisio yn erbyn ei gilydd amdano a chyfrannu'n ariannol tuag ato. Byddai'r gyfradd ymyrraeth o 58% ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn cael ei diogelu ac nid oedd disgwyl i'r swm i gynghorau fod yn fawr iawn;
- nid yw gohirio penderfyniad yn y gobaith y gallai rhywbeth ddigwydd yn y dyfodol yn ffordd gynaliadwy o wneud penderfyniadau.
  Roedd y derbyniad cyfalaf o werthu'r safle eisoes wedi'i ragdybio yng nghynllun busnes y CRT a byddai unrhyw oedi yn effeithio ar gyflawniad y cynllun hwnnw, gan arwain at lai o dai newydd neu lai o waith cynnal a chadw i'r stoc bresennol neu gyfuniad o'r ddau, a byddai yna gyfnod hirach o aros am dai fforddiadwy ar y safle;
- roedd yna resymau pwysig pam na fyddai'n ymarferol rhannu'r safle'n blotiau datblygu llai, sef yr effaith ar y derbyniad cyfalaf a chost fesul uned y tai fforddiadwy a gynigir, sy'n codi o gost uwch y datblygiad a gwerth is y tir.
  Roedd plotiau llai yn cynyddu costau ar bob cam o'r datblygiad a byddai angen i gonsortiwm o ddatblygwyr gytuno ar raglen gyfan o waith cyn prynu. Gallai'r cyngor ddarparu'r seilwaith ar eu risg a'u cost eu hunain heb sicrwydd y gallent adennill yr arian gan brynwyr y dyfodol, a byddai hefyd yn lleihau neu'n negyddu unrhyw dderbyniad cyfalaf;
- o ran creu gorgyflenwad o dai anfforddiadwy nad ydynt yn diwallu angen lleol, byddai'r gwerthiant arfaethedig yn digwydd ar y farchnad agored gydag amod o 20% o dai fforddiadwy, sy'n darparu dwbl nifer yr unedau fforddiadwy sy'n ofynnol dan y CDLl.
  Roedd galw heb ei fodloni am dai fforddiadwy a thai'r farchnad agored yn Ninbych, a byddai'r safle'n mynd i'r afael â hyn i ryw raddau. Roedd disgwyl dan Bolisi BSC1 y byddai datblygiad yn darparu amrywiaeth o ddeiliadaethau i adlewyrchu'r angen a'r galw am safleoedd datblygu, a byddai cymysgedd o ddatblygiadau'n bodloni'r polisi hwnnw. Cafwyd cryn drafodaeth yn y pwyllgor craffu am effaith datblygiadau tai eraill, yn enwedig mewn perthynas â safle cyn Ysbyty Gogledd Cymru, gyda thua 300 o gartrefi'n cael eu cynnig ar y safle hwnnw. Byddai'r tai hynny'n cael eu cyflwyno'n raddol dros gyfnod o ddeng

mlynedd ac mae'n debygol y byddent o wahanol ddeiliadaeth i'r tai hynny a gynigir ar y safle dan sylw;

- o ran cefndir, roedd tua 123 o unedau fforddiadwy newydd wrthi’n cael eu hadeiladu neu eisoes wedi’u cynllunio ar gyfer Dinbych, heb gynnwys yr 20% o’r safle hwn.

  Cyfeiriwyd yn y pwyllgor craffu at ddata a ffigyrau Un Llwybr Mynediad at Dai (SARTH) ar gyfer Dinbych, ond roedd hefyd yn bwysig cadw mewn cof yr amseroedd aros am dai fforddiadwy yn yr amrywiol gymunedau, gyda ffigyrau Dinbych yn sylweddol is na’r Rhyl neu Brestatyn. Roedd y CDLl drafft hefyd yn cynnwys targed llawer is o ran tai newydd dros gyfnod y cynllun.

Ar ôl adolygu argymhellion y pwyllgor craffu, dywedodd y Cynghorydd Thompson-Hill na allai eu cefnogi am y rhesymau a amlinellodd, ac argymhellodd fod y Cabinet yn ailddatgan ei benderfyniad i gael gwared ar y safle ar y farchnad agored.

Ar wahoddiad yr Arweinydd, ac i gynnig rhywfaint o gyd-destun i’r fframwaith cenedlaethol drafft newydd, dyfynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a’r Parth Cyhoeddus o’r nodiadau a amgaewyd gyda’r ddogfen ar wefan LlC, a nododd nad oedd yn fersiwn newydd na therfynol, ond yn ddogfen weithredol a allai newid yn dilyn proses graffu’r Senedd, ac na ddylid ei defnyddio fel ffynhonnell bolisi.

Trafododd y Cabinet rinweddau argymhellion y pwyllgor craffu yn helaeth, ac roedd y farn yn gymysg o ran p’un a luniwyd achos i gyfiawnhau penderfyniad gwahanol. Pwysleisiodd y Cynghorydd Mark Young nad oedd y safle dan sylw na safle cyn Ysbyty Gogledd Cymru wedi cael caniatâd cynllunio, a oedd yn destun proses ar wahân. Mynegodd bryder mai dim ond 20 o dai fforddiadwy fyddai'n cael eu cynnig allan o’r 400 o dai ar draws y ddau safle, a chredai fod cyfle i’r cyngor fod yn fwy uchelgeisiol. Felly cefnogodd y cynnig i ohirio gwneud penderfyniad, gyda golwg ar gynyddu nifer y tai fforddiadwy ar y safle. Cododd aelodau’r Cabinet gwestiynau am gysylltiadau â safleoedd datblygu tai eraill a darpariaeth tai fforddiadwy, ynghyd ag effaith gohirio’r penderfyniad ar yr angen am dai yn y dyfodol a chyflawniad cynllun busnes y CRT. Ceisiwyd eglurder hefyd am y posibilrwydd o godi adeilad ysgol newydd ar y safle.

Ymatebodd y Cynghorydd Thompson-Hill, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a’r Parth Cyhoeddus a’r Rheolwr Rhaglen – Datblygu Tai i’r cwestiynau fel a ganlyn -

- nid yw’r safle wedi cael caniatâd cynllunio ond sefydlwyd yr egwyddor o ddatblygu tai yn 2013 pan ddyrannwyd y tir er dibenion preswyl yn y CDLl yn dilyn y prosesau a'r ymgynghoriadau angenrheidiol.
- ni roddwyd caniatâd cynllunio i safle cyn Ysbyty Gogledd Cymru hyd yma, oedd yn ddatblygiad galluogi (cwbl ar wahân i’r safle bresennol) ac na ragwelwyd y byddai’n cynnig tai fforddiadwy.

  Nid oedd yn safle tai dynodedig yn y CDLl ond roedd wedi’i gynnwys dan bolisi penodol i ganiatáu datblygiad galluogi yn y tiroedd fel modd o fuddsoddi a diogelu’r adeilad rhestredig; nid oedd tai fforddiadwy’n ofyniad, ond byddai’n cael ei groesawu pe bai’n cael ei gynnig fel rhan o’r datblygiad hwnnw;
- byddai 20% o dai fforddiadwy yn cael ei nodi fel amod yn y cytundeb gwerthu ac yn rhwymo’r prynwr mewn cyfraith.

Cyfrifwyd yr 20% i sicrhau y byddai posib cyflawni unrhyw ddatblygiad, y byddai'n ariannol hyfyw ac y byddai'n cynhyrchu derbyniad cyfalaf i gyflawni'r cynllun busnes stoc tai. Cadarnhaodd y Cynghorydd Tony Thomas fod lefel uwch na'r disgwyl o dai fforddiadwy wedi cael eu cyflenwi yn y gorffennol, gyda chyfartaledd o ychydig dros 30% yn y 3 blynedd diwethaf, ac ar sail safleoedd y gorffennol, byddai potensial i'r safle gynnig mwy na'r gofyniad o 20%. Pa un bynnag, byddai'r derbyniad cyfalaf a gynhyrchir yn cael effaith gadarnhaol ar stoc tai'r cyngor;

- eglurwyd protocol gwaredu'r cyngor fel y'i cymhwysir, a dim ond y CRT oedd yn nodi gofyniad ar gyfer y tir.
  Er mai dim ond yng nghyfarfod diwethaf y Cabinet y trafodwyd yr argymhelliad bod safleoedd yn cael eu cyflwyno ar gyfer Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, mae'r Adran Addysg wedi bod yn gwbl ymwybodol o'r cynigion ar gyfer y tir ac wedi rhoi gwybod na fyddai'n edrych ar y safle penodol hwn. Cadarnhaodd y Cynghorydd Huw Hildtich-Roberts y safbwynt hwnnw, gan egluro ymhellach y gwaith asesu a gyflawnwyd mewn perthynas â Band B yn 2016, gyda nifer o opsiynau yn yr ardal o ran Ysgol Pendref y gellid eu harchwilio ymhellach ar ôl i LlC gymeradwyo'r cyllid;
- cafwyd ar ddeall yr ymgynghorwyd â Grŵp Ardal Aelodau Dinbych ar y cynigion cychwynnol ar gyfer y safle cyn ei ddyrannu yn y CDLl.

Bu i'r Cynghorydd Richard Mainon gydnabod rhinweddau'r argymhellion a gyflwynwyd gan y pwyllgor craffu, a mynegodd ei rwystredigaeth gyda'r polisïau a'r canllawiau cynllunio, yn enwedig y CDLl. Fodd bynnag, roedd ganddo amheuaeth ynglŷn â gohirio penderfyniad ar sail deddfwriaeth amodol.

Gwahoddodd y Cadeirydd aelodau nad oeddent yn aelodau'r Cabinet i siarad a gofyn cwestiynau. Pwysleisiodd y Cynghorydd Rhys Thomas bod y fframwaith datblygu cenedlaethol drafft newydd wedi bod allan ar gyfnod ymgynghori, a'i fod yn debygol o fod bron ar ei ffurf derfynol ac yn cynnig cyfle i'r cyngor elwa ar gam cynnar. Ailadroddodd ei bryderon o ran nifer y tai a'r mathau o ddatblygiadau tai sydd wrthi'n cael eu codi neu eisoes wedi'u cynllunio ar gyfer Dinbych, gan geisio eglurhad hefyd am y safleoedd posib ar gyfer Ysgol Pendref. Ehangodd y Cynghorydd Glenn Swingler ar y sail dros alw am adolygiad o benderfyniad y Cabinet, gan annog y Cabinet i ohirio'r penderfyniad yn unol ag argymhellion y pwyllgor craffu. Tynnodd y Cynghorydd Merfyn Parry sylw at ei bryderon, gan gefnogi'r cynnig i ohirio'r penderfyniad; awgrymodd hefyd y gellid cyfnewid tir gyda Jones Bros fel rhan o ddatblygiad safle cyn Ysbyty Gogledd Cymru er mwyn hwyluso adeilad ysgol newydd. Cyfeiriodd y Cynghorydd Graham Timms at y pwyslais amlwg yn y fframwaith drafft newydd ar yr angen am dai fforddiadwy, gan annog y Cabinet i ohirio'r penderfyniad er mwyn canfod faint o ddylanwad a fydd ganddo.

Ymatebodd yr Aelodau Cabinet Arweiniol perthnasol a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus i'r sylwadau a'r cwestiynau pellach a godwyd fel a ganlyn -

- cadarnhawyd y dylid rhoi ystyriaeth i faint o bwys i'w roi ar y fframwaith datblygu cenedlaethol drafft newydd, o ystyried nad oedd wedi cael ei addasu eto;

- Adroddodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts ar drafodaethau blaenorol gyda Grŵp Ardal Aelodau Dinbych ar yr opsiynau ar gyfer Ysgol Pendref, gan nodi y gwnaed rhywfaint o waith cwmpasu ar safleoedd presennol pan unodd yr ysgolion.
  Bydd pob opsiwn yn cael ei gwmpasu'n llawn ar ôl i'r cyllid gael ei gymeradwyo gan LlC, ond ni ystyriwyd y safle dan sylw fel dewis ymarferol ar gyfer adeilad ysgol newydd oherwydd materion topograffi a seilwaith;
- o ran amserlenni, roedd y tir wedi'i ddyrannu er dibenion preswyl yn y CDLl yn 2013 a'i bennu yn y CRT yn 2016. Roedd y CRT wedi bod yn gweithio drwy flaenoriaethau caffael safle ar eiddo a meysydd eraill i'w datblygu, ac roedd bellach wedi cyrraedd y flaenoriaeth i gyflenwi ar y safle hwn;
- cyflwynir y CRT i'r Cabinet yn flynyddol a cheir adroddiadau misol hefyd fel rhan o'r adroddiad cyllid rheolaidd, gyda £19.2 miliwn o fewn y cynllun cyfalaf ar hyn o bryd a lle i tua 220 o eiddo newydd yn y cynllun hwnnw;
- roedd cyn denant y tir wedi prynu'r rhan fwyaf o'r daliad tir yr oedd yn ei rentu'n flaenorol, ond nid oedd wedi prynu'r cae penodol hwn ac nid oedd ystadau amaethyddol eisiau ei gadw fel cae ar ei ben ei hun; roedd yn cael ei osod ar drwydded bori tymor byr nes y byddai'r datblygiad yn cychwyn;
- byddai'r dyraniad o 20% o dai fforddiadwy yn amod ar y gwerthiant ac felly dyma'r isafswm fyddai'n sicr o gael ei gynnig ar y safle;
- ailddatganwyd y cynnig i gael gwared ar y tir ar y farchnad agored heb ddim i atal Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig rhag prynu'r safle;
- teimlai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol ei bod yn rhy gynnar i wneud sylw ar rinweddau na gwendidau'r cynnig i gyfnewid tir i hwyluso adeilad ysgol newydd, gan nodi y byddai angen ymchwilio ymhellach i asesu ei ymarferoldeb.
  Ychwanegodd y Cynghorydd Hilditch-Roberts y byddai hefyd yn cyfiawnhau trafodaeth gydag aelodau lleol yn gyntaf.

Wrth gloi'r ddadl, ailadroddodd y Cynghorydd Mark Young yr angen am fwy o dai fforddiadwy yn Ninbych, a chredai y byddai gohirio'r penderfyniad yn rhoi cyfle i'r cyngor ddarparu mwy o dai fforddiadwy. O ganlyniad, cynigiodd y Cynghorydd Young argymhellion y Pwyllgor Craffu fel y'u nodir yn yr adroddiad. Wrth eilio'r cynnig, teimlai'r Cynghorydd Bobby Feeley fod achos wedi'i wneud i ohirio'r penderfyniad ar sail argymhellion a chasgliadau'r pwyllgor craffu a'r sylwadau dilys a gyflwynwyd yn y cyfarfod.

Yn ei ddatganiad terfynol, anogodd y Cynghorydd Huw Williams y Cabinet i gefnogi argymhellion y pwyllgor craffu a gohirio'r penderfyniad am 12 mis, fyddai hefyd yn rhoi cyfle i ymchwilio i'r posibilrwydd o gyfnewid tir er mwyn hwyluso adeilad ysgol newydd.

Yn ei ddatganiad clo, ailddatganodd y Cynghorydd Thompson-Hill ei benderfyniad gwreiddiol a chynigiodd ddiwygiad, a eiliwyd gan y Cynghorydd Tony Thomas, i gydnabod argymhellion a chasgliadau'r pwyllgor craffu ac i ailddatgan penderfyniad y Cabinet a wnaed ar 22 Medi mewn perthynas â chael gwared ar y safle.

Pleidleisiodd aelodau'r Cabinet ar y diwygiad fel a ganlyn -

**O BLAID –** Y Cynghorwyr Julian Thompson-Hill, Tony Thomas, Brian Jones a Hugh Evans [4]

**YN ERBYN -** Y Cynghorwyr Mark Young, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts a Richard Mainon [4]

Gan fod y bleidlais yn gyfartal, defnyddiodd yr Arweinydd ei bleidlais fwrw i nodi ei fod o blaid derbyn y diwygiad. Daeth y diwygiad i fod yn argymhelliad gwirioneddol ac ailddatganodd aelodau'r Cabinet eu safle pleidleisio blaenorol, gan arwain unwaith eto at bleidlais gyfartal. Defnyddiodd yr Arweinydd ei bleidlais fwrw i nodi ei fod o blaid derbyn y penderfyniad.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai'r Cabinet yn –*

*(a) cydnabod casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn sgil ei adolygiad o benderfyniad y Cabinet ar 22 Medi 2020;*

*(b) ar ôl adolygu eu penderfyniad ac ystyried argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau, ailddatgan penderfyniad y Cabinet a wnaed ar 22 Medi 2020 i -*

*(i) "gymeradwyo gwaredu tir ger Ysgol Pendref, Dinbych a amlinellir mewn coch ar y cynllun (Atodiad A yr adroddiad) nad oes ei angen ar y Cyngor mwyach, ar y farchnad agored ar gyfer datblygiad preswyl, a dirprwyo awdurdod i'r Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol i gymeradwyo'r gwerthiant terfynol, a*

*(ii) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall a rhoi ystyriaeth i'r Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad B yr adroddiad) fel rhan o'i benderfyniad"*

[Yn y fan hon (12pm) cymerodd y pwyllgor egwyl o ddeng munud am luniaeth]

## 7 ESTYNIAD I FFRAMWAITH HAMDDEN Y DU Y CYNGOR

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill y cyd-adroddiad gyda'r Cynghorydd Bobby Feeley, oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i estyn Fframwaith Hamdden y DU y Cyngor tan fis Ionawr 2022.

Hysbyswyd y Cabinet y bydd tymor pedair blynedd Fframwaith Hamdden bresennol y DU yn dod i ben ym mis Ionawr 2021. Nodwyd y darpariaethau a'r cyfyngiadau o fewn deddfwriaeth caffael, fel yr oedd yn berthnasol i'r fframwaith, ynghyd ag effaith gweithredu o fewn y cyfyngiadau a orfodwyd o ganlyniad i bandemig y coronafeirws. Er budd y cyngor a Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig (DLL), a hefyd o ran tegwch i bob darparwr yn y farchnad, argymhellwyd gohirio lansiad proses gaffael newydd tan y flwyddyn nesaf, pan fydd ymarfer newydd a gynlluniwyd yn cychwyn. Nodwyd fod DLL dan gontract i reoli'r fframwaith bresennol ar ran y cyngor a'u bod yn cefnogi'r estyniad, a bod y cyflenwr presennol, sef Alliance Leisure, wedi cadarnhau y byddai'n fodlon parhau â'r fframwaith bresennol.

Cydnabu'r Arweinydd fanteision y fframwaith ar gyfer y cyngor a DLL fel ei gilydd, ac o ran codi amlygrwydd gwasanaethau hamdden y tu hwnt i ffiniau Sir Ddinbych. Fel Cadeirydd DLL, pwysleisiodd y Cynghorydd Bobby Feeley yr anawsterau y mae'r cwmni newydd wedi'u hwynebu ers iddo gychwyn ym mis Ebrill a'r heriau i fasnach mewn amgylchiadau anodd, a thalodd deyrnged i'r holl aelodau staff yn hynny o beth. Roedd y cyhoeddiad am y cyfnod clo diweddaraf wedi bod yn ergyd pellach a'r gobaith oedd y bydd y gwasanaethau'n ailgychwyn ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu codi. Ategodd y Cabinet y teimladau hyn.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai'r Cabinet yn cymeradwyo'r estyniad i Fframwaith Hamdden y DU tan fis Ionawr 2022 ar yr un telerau gosod, ac y bydd cyfnod estynedig o'r fath yn gyfyngedig i 50% o werth y cytundeb fframwaith gwreiddiol yn unol â Rheoliad 72 Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.*

## 8 CONTRACT CAEL GWARED AR ASBESTOS

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth i gychwyn proses gaffael ar gyfer contract gwaith gyda Chontractwr Cael Gwared ar Asbestos trwyddedig.

Mae'r trefniadau presennol i hwyluso'r gwaith o gael gwared ar asbestos yn eiddo'r cyngor drwy fframwaith cydweithredol yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2020. I hwyluso dull mwy hyblyg a syml, argymhellwyd contract gwaith sy'n cynnwys cytundeb ag un contractwr a chyfraddau sefydlog i sicrhau gwell gwerth am arian a gwasanaeth wedi'i deilwra'n well. Byddai'r contract gwaith yn cael ei sefydlu am 12 mis i gychwyn, gyda'r cyfle i'w estyn bob blwyddyn hyd at uchafswm o 10 mlynedd, a dim ond os yw perfformiad y contractwr yn foddhaol y byddai'r contract yn cael ei adnewyddu. Nodwyd manylion gwerth y contract yn yr adroddiad, gyda chyfanswm gwerth i'r contract o hyd at £4 miliwn. Er mwyn osgoi unrhyw oedi wrth ddyfarnu'r contract, argymhellwyd y dylid gweithredu'r penderfyniad i gychwyn ar y broses gaffael ar unwaith.

Roedd y Cabinet yn fodlon bod y broses gaffael a argymhellwyd yn cefnogi anghenion busnes y cyngor ac yn cynnig gwerth am arian. Nodwyd y byddai'r caniatâd i ddyfarnu'r contract i'r cynigiwr llwyddiannus yn amodol ar adroddiad pellach i'r Cabinet ym mis Rhagfyr.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai'r Cabinet yn –*

*(a) cytuno i gychwyn ar y broses gaffael ar gyfer y contract gwaith hwn, gan hysbysebu am Gontractwr Cael Gwared ar Asbestos trwyddedig;*

*(b) cytuno i weithredu'r penderfyniad uchod ar unwaith er mwyn osgoi unrhyw oedi i ddyfarnu'r contract; ac yn*

*(c) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall a rhoi ystyriaeth i'r Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 1 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

## 9 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn rhoi manylion am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a’r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb fel yr amlinellir isod -

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2020/21 oedd £208.302 miliwn (£198.538 miliwn yn 2019/20);
- rhagwelir gorwariant o £5.107 miliwn ar gyfer cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol (nid oedd y gorwariant yn rhagdybio derbyn unrhyw grantiau na hawliadau 'colli incwm’ pellach);
- tynnwyd sylw at y risgiau a’r rhagdybiaethau presennol sy’n ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol, ynghyd ag effaith ariannol y coronafeirws a chyllidebau Model Darparu Amgen Hamdden;
- cytunwyd ar arbedion ac arbedion effeithlonrwydd gofynnol manwl o £4.448 miliwn, gan gynnwys arbedion corfforaethol sy’n gysylltiedig ag adolygiad actiwaraidd bob tair blynedd o Gronfa Bensiynau Clwyd (£2m); 1% o arbedion ysgolion (£0.692m); arbedion gwasanaeth (£1.756m);
- cafwyd diweddariad cyffredinol am y Cynllun Cyfalaf, y Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

Ymhelaethodd y Cynghorydd Thompson-Hill ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf mewn manylder, yn enwedig o ran effaith ariannol Covid-19, gan gynnwys y cyllid grant a sicrhawyd hyd yma a’r sefyllfa o ran hawliadau ar gyfer y cyngor.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd -

- Eglurwyd fod setliad gwell na’r disgwyl gan LlC wedi arwain at i’r Cyngor gymeradwyo gostyngiad yn yr arbedion ysgolion o 2% i 1% ym mis Chwefror 2020, i gydnabod balansau diffyg net ysgolion.
- Bydd y setliad cyllideb drafft yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr, gyda’r setliad terfynol i’w gyhoeddi ym mis Mawrth 2021, ond ni chafwyd unrhyw arwydd o’r hyn y bydd yn ei olygu.
  Oherwydd y cyhoeddiad hwyr, ychydig o newidiadau a ddisgwylir yn y setliad drafft, ac roedd yn debygol y byddai’r cyngor angen gosod cyllideb cyn cyhoeddi’r setliad terfynol.
- Nid oedd unrhyw gyhoeddiad wedi’i wneud o ran y cyllid ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol mewn perthynas â’r cyfnod clo sydd ar ddod yn benodol, a thybiwyd y byddai hawliadau am golli incwm a chostau ychwanegol a ysgwyddwyd o ganlyniad yn cael eu hawlio o’r gronfa £264 miliwn a gyhoeddwyd yn flaenorol gan LlC.
- Teimlai’r Cynghorydd Bobby Feeley y dylai LlC ddarparu cyllid penodol ar gyfer y sector hamdden o ystyried ei fod yn wasanaeth hanfodol o ran iechyd a lles, a’i fod yn parhau i wynebu sefyllfa fasnachu ansicr ac anodd.
  Nodwyd fod yr hawliad am golli incwm mewn perthynas â Hamdden ar gyfer Chwarter 1 wedi cael ei dalu a bod yr hawliad am Chwarter 2 wrthi’n cael ei baratoi, ond roedd ansicrwydd o hyd o ran Chwarteri 3 a 4. Adroddodd yr Arweinydd ar gyfarfodydd rheolaidd a thrafodaethau cadarnhaol â LlC, a oedd yn ymwybodol o’r pwysau sy’n wynebu llywodraeth leol, gan gynnwys y gwasanaethau hamdden. Fodd bynnag, mae’n eithaf posib y bydd y pwysau ariannol cynyddol ar LlC yn risg i lywodraeth leol, yn enwedig o ran setliadau’r dyfodol.

- Holodd y Cynghorydd Mark Young sut y byddai’r cyngor yn mynd i’r afael â’r diffyg ariannol os nad oedd cyllid ar ddod gan LlC, a cheisiodd sicrwydd fod y cyngor yn parhau i weithio gyda busnesau a thrigolion o ran ardrethi busnes a threth y cyngor o ystyried yr heriau ariannol cyfredol.
  Adroddodd y Pennaeth Cyllid fod y cyngor wedi bod yn ddoeth gyda’i gronfeydd wrth gefn, gyda chronfeydd wedi’u clustnodi a chronfa liniaru’r gyllideb y gellid ei defnyddio os bydd angen, a bydd unrhyw argymhellion yn hynny o beth yn cael eu dwyn ger bron y Cabinet. Roedd yn hyderus y byddai’r cyngor yn parhau’n ddiddyled dros y flwyddyn ariannol bresennol, ond roedd pryderon o ran y flwyddyn ariannol nesaf a thu hwnt. Roedd y prif ansicrwydd yn ymwneud â threth y cyngor a gallu LlC i gyllido llywodraeth leol ar y lefel yr hoffent ei weld o ystyried effaith ariannol Covid-19. O ran adennill treth y cyngor ac ardrethi busnes, rhoddodd y Cynghorydd Thompson-Hill sicrwydd y caiff unigolion eu trin mor sensitif ag y bo modd.
- Diolchodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts i’r Arweinydd am ei ddatganiad i LlC yn galw am wybodaeth frys cyn cyhoeddiad y cyfnod torri'r cylch, gan gynnwys pecyn cymorth ar gyfer busnesau a chynllun ffyrlo, a chredai ei fod wedi cael effaith ar y wybodaeth a rannwyd gan LlC yn eu cyhoeddiad, a’i fod wedi cael ei werthfawrogwyd gan fusnesau.
  Teimlai fod y datganiad yn adlewyrchu sefyllfa Sir Ddinbych go iawn ac roedd yn gobeithio, yn ogystal â chymorth i’r sectorau hynny oedd ar gau yn ystod y cyfnod clo, y byddai cymorth ar gael hefyd i fusnesau hanfodol oedd yn parhau i fasnachu, ond gydag incwm sylweddol is. Cadarnhaodd yr Arweinydd ei fod yn fater o bwys a gydnabuwyd gan LlC, a’r gobaith yw y byddent yn gallu ymateb yn ariannol.
- Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Emrys Wynne mewn perthynas â’r wybodaeth a’r canllawiau oedd ar gael i fusnesau cyn y cyfnod clo, cadarnhaodd y Cynghorydd Mark Young ei fod yn cydweithio â’r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd i gyfathrebu a darparu datganiadau i’r wasg wrth i’r wybodaeth ddod i law.
  Cyfeiriwyd y Cynghorydd Williams hefyd at y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ar wefan LlC, y gellir mynd ati hefyd drwy ddolen ar wefan y cyngor, ac fe’i sicrhawyd fod gwybodaeth yn cael ei rhannu â busnesau a thrigolion wrth iddi ddod i law. Cydnabuwyd pwysigrwydd gwybodaeth a chanllawiau perthnasol ac amserol, a dyma a ysgogodd ddatganiad yr Arweinydd i LlC cyn cyhoeddiad y cyfnod torri’r cylch.
- Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Meirick Davies, cadarnhawyd fod y dyfarniad cyflog i staff yn 2.5% ar gyfartaledd, gyda chynyddiadau mwy i'r rhai oedd ar y cyflogau isaf, a'r cynnydd i gynghorwyr ychydig dros 1%.
  O ran y Model ar gyfer y Gwasanaeth Gwastraff, cadarnhaodd y Cynghorydd Brian Jones y byddai’r cerbydau newydd yn rhedeg ar ddiesel, ond y rhoddwyd ystyriaeth i dechnolegau’r dyfodol ar y safle wrth iddynt ddatblygu, e.e. hydrogen.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai’r Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2020/21 a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni.*

## 10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i’w hystyried.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

Daeth y cyfarfod i ben am 13.05.